Cylch Gorchwyl
# Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau
Cymeradwywyd: Mawrth 2024 (Adolygiad diwethaf: Mawrth 2024; Adolygiad nesaf: Mawrth 2026)

**Pwrpas**
Mae'r Pwyllgor Pobl a Thaliadau yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau cyflogaeth S4C a monitro eu heffeithiolrwydd. Mae hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar uwch-benodiadau ac, ar ran y Bwrdd, yn monitro perfformiad uwch-reolwyr ac yn cymeradwyo eu cyflogau.

**Aelodaeth a Phresenoldeb Eraill**

*(Noder: Ni fydd hawl gan unrhyw un o gyflogeion S4C – boed yn aelodau o'r pwyllgor neu'n mynychu – fod yn bresennol pan fydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw fater yn ymwneud â'u cyflogaeth, gan gynnwys canlyniad eu hasesiad blynyddol a thrafodaethau ynghylch eu cyflogau. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylai'r unigolyn o dan sylw adael y cyfarfod dros dro).*

Aelodau (5 aelod)
- Aelod Anweithredol, o blith aelodau'r Bwrdd (i gadeirio)
- Cadeirydd y Bwrdd
- Aelod Anweithredol pellach, o blith aelodau'r Bwrdd
- Y Prif Weithredwr
- Y Prif Swyddog Gweithredu

Cworwm: 3 aelod, gydag o leiaf dau Aelod Anweithredol yn bresennol.

Penodir aelodau'r Pwyllgor gan y Bwrdd, yn unol â'r aelodaeth uchod.

Mynychwyr nad ydynt yn aelodau
- Y Pennaeth Adnoddau Dynol
- Ysgrifennydd y Bwrdd

Ar gais yr Ysgrifennydd, gall Cadeirydd y Pwyllgor ganiatáu i aelodau staff S4C ac unrhyw berson arall fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd fel bo'n briodol.

**Cylch Gorchwyl**

1. Yr Aelodau Anweithredol: Arwain ar y prosesau i benodi 'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd – gan argymell prosesau penodi i Aelodau Anweithredol y Bwrdd eu cymeradwyo, ffurfio'r paneli penodi, a chytuno ar argymhellion i Aelodau Anweithredol y Bwrdd ar y penodiadau priodol, gan gynnwys telerau ac amodau'r penodiadau hynny.

2. Yr Aelodau Anweithredol: Ystyried canlyniadau asesiadau blynyddol o berfformiad y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd, cymeradwyo'r canlyniadau fel bo'n berthnasol, a chytuno ar unrhyw adolygiad o gyflogau'r unigolion yn y swyddi hyn i'w hargymell i Aelodau Anweithredol y Bwrdd i'w cymeradwyo.

3. Craffu ar y materion canlynol, a chytuno ar argymhelliad / argymhellion i'r Bwrdd fel bo'n briodol:
   i. Telerau ac amodau cyflogaeth cyffredinol ar gyfer staff S4C, ac unrhyw gynigion i newid y telerau ac amodau hynny;
   ii. Unrhyw setliad cyflog blynyddol a gynigir i holl gyflogeion S4C;
   iii. Penodiadau aelodau gweithredol i'r Bwrdd;
   iv. Penodiadau i'r Tîm Rheoli, a'r telerau sy'n berthnasol i'r penodiadau hynny;
   v. Safonau ymddygiad a disgyblaeth cyflogeion S4C;
   vi. Penodiadau unigolion yn Gyfarwyddwyr ar is-gwmnïoedd masnachol S4C;
   vii. Diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor (fel arfer yn dilyn gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun).

4. Ystyried y materion canlynol, gyda'r awdurdod i'w cymeradwyo ar ran y Bwrdd:
   i. Polisïau'n ymwneud â ymwneud â chyflogaeth a gweithlu S4C, y mae'n ofynnol eu cymeradwyo ar lefel llywodraethu am resymau cyfreithiol neu reoleiddiol;
   ii. Asesiadau blynyddol o berfformiad y Prif Weithredwr, Ysgrifennydd y Bwrdd, ac aelodau'r Tîm Rheoli;
   iii. Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau'r Pwyllgor a threfniadau taliadau S4C, i'w gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol S4C;
   iv. Unrhyw adolygiadau o strwythurau trefniadol S4C, ac ymdrechion i sicrhau bod sgiliau staff S4C yn addas i'r diben.

5. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth ar y materion canlynol, a chynghori'r Bwrdd a / neu'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli fel bo'n briodol:
    i. Mesuryddion ar berfformiad S4C mewn perthynas â gweithgareddau sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys tueddiadau salwch staff a dangosyddion eraill adnoddau dynol;
    ii. Anghenion hyfforddi a datblygu staff S4C, a'r sector yn ehangach;
    iii. Canlyniadau arolygon staff S4C;
    iv. Trefniadau ar gyfer ymgynghori â staff S4C ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar fuddiannau'r staff hynny;
    v. Unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau;
    vi. Trefniadau cynllunio olyniaeth mewn perthynas ag aelodau'r Tîm Rheoli;
    vii. Newidiadau i ddeddfwriaeth ac arfer da ym meysydd gweithredu S4C sydd o fewn cwmpas gwaith y Pwyllgor

**Hawliau'r Pwyllgor**
Gall y Pwyllgor:
- ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl;
- gomisiynu cyngor arbenigol neu ymchwil at ddiben y Pwyllgor yn ôl yr angen (trwy'r Ysgrifennydd); a
- geisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen gan unrhyw aelod o'r staff, a chyfarwyddir pob aelod o'r staff i gydweithredu ag unrhyw gais a wneir gan y Pwyllgor.

Er y gall y Cadeirydd gynnig arweiniad a chynghori ar y mathau o faterion y dylid eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor, ynghyd â'r amser gorau i wneud hynny, a natur y wybodaeth sy'n briodol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor, ni all y Cadeirydd gymryd unrhyw benderfyniadau ffurfiol ar ran y Pwyllgor oni bai bod y Pwyllgor wedi cytuno i ddirprwyo'r penderfyniad iddynt o flaen llaw.

**Trefniadau Cyfarfodydd**
Cynhelir y cyfarfodydd o leiaf dwywaith y flwyddyn, ac yna yn ôl y galw (ar gais yr Ysgrifennydd, Cadeirydd y Pwyllgor, neu Gadeirydd y Bwrdd). Bydd o leiaf un cyfarfod y flwyddyn yn cynnwys ystyriaeth o faterion yn ymwneud â pherfformiad a cyflogau uwch-reolwyr S4C.

Gall y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo materion drwy gyfathrebu y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol, cyhyd â bod cofnod llawn o'r penderfyniad yn cael ei gadw a bod unrhyw benderfyniad a wneir y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol yn cael ei adrodd i'r cyfarfod ffurfiol nesaf er mwyn iddo gael ei gofnodi.

Yn ychwanegol i'r hyn a nodwyd yn flaenorol, gofynnir i unigolion adael y cyfarfod pan fo gwrthdaro buddiannau eraill yn codi (y Pwyllgor fydd â'r gair olaf mewn unrhyw achos o wrthdaro).

Bydd yr Ysgrifennydd, neu fel arall, berson cymwys a benodir gan yr Ysgrifennydd, yn cofnodi'r cyfarfod.

Bydd cofnodion a / neu adroddiadau gan y Pwyllgor yn cael eu nodi neu eu hystyried, fel y bo'n briodol, gan y Bwrdd cyn gynted â phosib yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

Yn amodol ar y darpariaethau uchod, bydd gweithgareddau'r Pwyllgor yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog y Bwrdd, i'r graddau eu bod yn berthnasol.